Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

14 Mai 2018

Annwyl Kirsty

Grant Gwella Addysg: Dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig

Diolch ichi am eich llythyr ar 17 Ebrill 2018 yn rhoi ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor yn ymwneud â threfniadau ariannu ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig.

Yng ngoleuni'r wybodaeth a ddarparwyd gennych, dymuna'r Pwyllgor gofnodi ei siom bod eich llythyr yn ymddangos fel pe bai'n cadarnhau'r canlynol:

- bod yr £13.1 miliwn o fewn y Grant ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, wedi cael ei ddileu, ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn canolog Llywodraeth Cymru, ac ar gael drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer ysgolion heb unrhyw ofyniad iddo gael ei wario ar ddysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, yn benodol;

- ac eithrio'r £7.5 miliwn a ddyrennir ar gyfer cymorth trosiannol yn 2018-19, bydd disgwyl i awdurdodau lleol ariannu cymorth i ddysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, o adnoddau llywodraeth leol heb unrhyw drosglwyddiad ychwanegol neu gymesur a ddaw i mewn; a

- bydd y cymorth trosiannol untro ar gyfer 2018-19 yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau trefol, yn seiliedig ar asesiad o angen Llywodraeth Cymru (yn hytrach nag o dan arweiniad awdurdod lleol) - rydym yn dal i bryderu y gallai ardaloedd awdurdodau lleol eraill â chrynodiadau llai o'r grwpiau hyn o ddysgwyr barhau i gael anhawster.

Mae'r Pwyllgor yn dal yn bryderus iawn am y pwyntiau uchod o ystyried canfyddiadau ei **ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig** a beth sy'n ymadawiad o'ch ymateb cadarnhaol cychwynnol i'r **adroddiad** canlyniadol ym marn y Pwyllgor.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Fel y gwyddoch o'n hadroddiad cyllideb ddrafft a gohebiaeth ddilynol, rydym hefyd yn dal i bryderu am y tryloywder y caiff gwybodaeth am benderfyniadau cyllideb ei chyflwyno'n gyhoeddus. Byddwn yn ysgrifennu ar wahân at y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn fuan i gyfleu ein pryderon cyffredinol ynghylch y tryloywder y mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei chyflwyno. Byddwn yn amlinellu ein dull dewisol ar gyfer cyllidebau drafft yn y dyfodol er mwyn helpu i alluogi pwyllgorau i ymgymryd â gwaith craffu ariannol adeiladol a chyflawni eu swyddogaeth graidd o ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei chynlluniau cyllideb a gwariant dilynol yn effeithiol.

Yn y cyfamser, ac mewn perthynas â'r Grant a'r trefniadau ariannu ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, yn benodol, nodwn fod dryswch yn debygol o godi yn sgil:

- eich datganiad yn eich llythyr ar 17 Ebrill bod y cymorth trosiannol gwerth £7.5 miliwn yn 2018-19 yn "ychwanegol" - *mae'r Pwyllgor yn ymdrechu i ddeall sut y gall hyn fod yn "ychwanegol", yn hytrach na chyllid amnewid / iawndal trosiannol (yn ôl ein cyfrifiadau, mae yna "golled" o £5.6 miliwn ar ôl cael gwared â'r £13.1 miliwn o'r Grant ochr yn ochr â'r dyraniad o gymorth trosiannol o £7.5 miliwn);* a

- eich cadarnhad nad yw'r £13.1 miliwn wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw - *mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn anwybyddu'r gwahaniaeth a wnaethoch wrth graffu ar y gyllideb ddrafft rhwng y "gostyngiad" o £2 filiwn i'r Grant Gwella Addysg yn 2018-19 a bod y "symudiad" dros ddwy flynedd o £22.2 miliwn i'w "roi ar gael" yn y Grant Cynnal Refeniw (£13.1 miliwn yn 2018-19), gan wneud craffu a dealltwriaeth o benderfyniadau o'r fath hyd yn oed yn fwy anodd i Aelodau, llywodraeth leol a'r cyhoedd yn ehangach.*

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Copi:

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau